**Y Pwyllgor Cyllid**

—

**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565


Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

9 Mai 2025

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgor,

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27: Ymgysylltu

Yn ein cyfarfodydd ar 12 Mawrth a 30 Ebrill 2025, trafododd y Pwyllgor Cyllid ('y Pwyllgor') ei raglen ymgysylltu mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. Rwy'n ysgrifennu at Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc i rannu ein syniadau yn seiliedig ar y trafodaethau hyn. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiad i randdeiliaid, grwpiau ffocws gydag aelodau o'r cyhoedd, ac ystod o ddulliau eraill i glywed barn pobl ifanc.

## Digwyddiad i randdeiliaid: Bangor

Cynhelir y digwyddiad i randdeiliaid eleni yn Neuadd Huw Owen yn y Ganolfan Reolaeth ym Mhrifysgol Bangor ddydd Iau 19 Mehefin. Bydd hwn yn gyfle i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan sefydliadau/unigolion sydd â diddordeb ynghylch y cynigion a ddisgwylir yn y Gyllideb Ddrafft, yn ogystal â chlywed eu barn ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru wrth bennu'r gyllideb a blaenoriaethu adnoddau. Gan fod y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gyllideb ar draws pwyllgorau yn hanfodol ar gyfer craffu effeithiol, hoffwn wahodd Cadeiryddion y pwyllgorau pwnc perthnasol, neu aelod arall o'r pwyllgor, i ymuno â ni yn y digwyddiad hwn. Os yw'r Cadeiryddion

neu'r Aelodau yn dymuno dod i'r digwyddiad, gofynnwn iddynt gysylltu â'r tîm clercio yn seneddcyllid@senedd.cymru erbyn 23 Mai.

## Grwpiau ffocws i ymgysylltu â dinasyddion Cymru

Ar ran y Pwyllgor, bydd tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws ar y Gyllideb Ddrafft gydag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r tîm wedi cynnal sesiynau tebyg yn y blynyddoedd diwethaf, a nod y gwaith hwn yw creu astudiaeth drawsdoriadol a fydd yn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro safbwyntiau ac agweddau dros gyfnod o amser. Bydd y tîm yn dod o hyd i gyfranogwyr trwy sefydliadau partner tebyg er mwyn cael yr un ddemograffeg â'r llynedd, a bydd trafodaethau'r grwpiau ffocws yn cael eu trefnu i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol. Bydd y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu dyddiadau'r sesiynau â phob Pwyllgor, rhag ofn y bydd unrhyw Aelodau yn dymuno cymryd rhan ynddynt. Hefyd, bydd cyfleoedd i unigolion rannu eu barn ag aelodau'r Pwyllgor yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru. Bydd hyn yn gyfle i Aelodau glywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru ynghylch sut y dylid blaenoriaethu gwariant.

## Ymgysylltu â phobl ifanc

I gyfoethogi ein gwaith ymgysylltu, bydd y Pwyllgor yn cynnal gweithdy gydag Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'n hynod ddefnyddiol clywed pobl ifanc yn siarad yn agored am y materion sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Rydym yn awyddus i barhau i adeiladu ar y gwaith amhrisiadwy hwn, a byddwn yn gwahodd Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru i gymryd rhan mewn gweithdy eto eleni.

Rydym hefyd wedi penderfynu gwahodd Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru i gymryd rhan yn un o gyfarfodydd ein Pwyllgor yn ystod tymor yr hydref. Caiff y manylion eu cadarnhau maes o law.

## Dadl y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 16 Gorffennaf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. Bydd canlyniadau ein gwaith ymgysylltu yn helpu i lywio'r ddadl hon, a fydd yn cynnig y cyfle gorau i ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Fel bob amser, byddem yn croesawu cyfraniadau gan Gadeiryddion y Pwyllgorau, yn ogystal ag Aelodau eraill, yn y ddadl hon, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a blaenoriaethau Pwyllgorau'r Senedd yn helpu i lywio cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

## Y dull o graffu ar y gyllideb

Byddaf yn ysgrifennu at y Cadeiryddion yn fuan ynghylch dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a'r amserlen, unwaith y bydd y Trefnydd wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft cyn toriad yr haf.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388 neu seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.